# Y PWYLLGOR AMAETHYDDIAETH A DATBLYGU GWLEDIG

## ADRODDIAD I'R CYFARFOD LLAWN O DAN REOL SEFYDLOG 9.9: MIS MAI 2001 TAN FIS EBRILL 2002

### 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi braslun o'n gweithgareddau o fis Mai 2001 tan fis Ebrill 2002. Gellir darllen copïau o'n hadroddiadau, agendâu, papurau, cofnodion a thrawsgrifiadau ein cyfarfodydd ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol (1).

### 2 Aelodau

2.1 Ar hyn o bryd aelodau'r Pwyllgor yw: Glyn Davies (Cadeirydd), Mick Bates, Jocelyn Davies, Ron Davies, Cynog Dafis, Delyth Evans, John Griffiths, Carwyn Jones (Y Gweinidog dros Faterion Gwledig), Peter Rogers a Rhodri Glyn Thomas. Newidiodd aelodaeth y Pwyllgor sawl gwaith yn ystod y cyfnod dan sylw (2).

### 3 Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau

3.1 Mae ein cylch gwaith yn adlewyrchu portffolio'r Gweinidog dros Faterion Gwledig, Carwyn Jones. Mae hyn yn cynnwys pob agwedd ar amaethyddiaeth a physgodfeydd, datblygu a hyrwyddo cynhyrchu bwyd, coedwigaeth a datblygu'r economi wledig.

3.2 Nodir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn Rheol Sefydlog 9.

### 4 Ein Gwaith a'r Hyn a Gyflawnwyd Hyd Yma

4.1 Cynhaliwyd deunaw o gyfarfodydd yn ystod y cyfnod dan sylw. Dyma'n prif weithgareddau:

#### Clwy'r Traed a'r Genau

4.2 Y dylanwad pennaf ar waith y Pwyllgor yn ystod y cyfnod dan sylw oedd clwy'r traed a'r genau. Taflodd gysgod dros waith y Pwyllgor o ddechrau'r flwyddyn tan yr haf. Cynhaliwyd cyfarfodydd ychwanegol yn ystod toriadau'r Pasg a'r haf a, pan oedd y clwy ar ei anterth, dyma oedd y prif destun trafod yng nghyfarfodydd y Pwyllgor. O ganlyniad, daeth y Pwyllgor yn fforwm cyhoeddus pwysig a oedd yn craffu ar sut yr ymdriniwyd â'r clwy'r yng Nghymru. Yr oedd hefyd yn gyfrwng hwylus i rannu gwybodaeth ynghylch y datblygiadau diweddaraf. Ym mis Chwefror a mis Mawrth 2002, neilltuodd y Pwyllgor ddau gyfarfod er mwyn adolygu'r argyfwng a sut yr ymdriniwyd ag ef gan Weinidogion y Cynulliad. Bydd ein casgliadau'n cael eu bwydo i mewn i ymchwiliadau ar lefel y DU a'r nod fydd ystyried y gwersi y gellir eu dysgu yn sgil yr argyfwng.

#### Y Comisiwn Ewropeaidd

4.3 Ym mis Mehefin teithiodd y Pwyllgor i Frwsel er mwyn cynnal cyfres o gyfarfodydd â phennaeth swyddfa'r Comisiynydd dros Amaethyddiaeth, Datblygu Gwledig a Physgodfeydd, uwch swyddogion eraill yn y comisiwn ac Aelodau Cymru yn Senedd Ewrop.

**Datblygu polisi (Rheol Sefydlog 9.7 (i))**

***Arallgyfeirio'r economi wledig***
4.4 Ym mis Mehefin 2001 cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad, *Arallgyfeirio'r Economi Wledig*. Roedd yr adroddiad yn benllanw deunaw mis o waith a rhestrwyd trigain o argymhellion ar gyfer ehangu a chryfhau seiliau'r economi wledig yng Nghymru. Bu ymateb positif i argymhellion y Pwyllgor a byddwn yn ystyried ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i bob un ohonynt ym mis Mai 2002.

***TGCh yng Nghymru Wledig***
4.5 Wedi cyhoeddi'r adroddiad ar arallgyfeirio'r economi wledig, aeth y Pwyllgor ati i gynnal arolwg o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yng Nghymru wledig gan ganolbwyntio'n benodol ar y camau fyddai angen eu cymeryd er mwyn cynyddu'r galw am TGCh mewn ardaloedd gwledig a gwella'r ddarpariaeth. Bellach, mae'r Pwyllgor wedi cwblhau'r gwaith o gasglu tystiolaeth a bydd adroddiad ac argymhellion yn cael eu cyhoeddi cyn yr haf.

**Cyfrannu at ddatblygu polisi**
4.6 Yn ogystal â'r adolygiadau uchod, mae'r Pwyllgor wedi cyfrannu at adolygiad polisi'r Pwyllgor Diwylliant o'r iaith Gymraeg, ac at ddatblygu polisïau'r Gweinidog dros Faterion Gwledig (3).

***Adolygu Gwariant a Gweinyddiaeth (Rheol Sefydlog 9.7 (ii))***
4.7 Rydym yn craffu'n rheolaidd ar waith y Gweinidog dros Faterion Gwledig drwy ei holi ynghylch ei adroddiadau pythefnosol i'r Pwyllgor. Gyda chytundeb y Gweinidog, cyflwynwyd system sy'n rhoi cyfle i Aelodau'r Pwyllgor ofyn i faterion penodol gael eu cynnwys yn ei adroddiad. Mae hyn yn galluogi Aelodau i graffu'n rheolaidd ar faterion sy'n bwysig yn y tymor byr a'r tymor hir. Erbyn hyn, neilltuir awr ym mhob cyfarfod i holi'r Gweinidog dan y drefn hon.

4.8 Hefyd, roedd y ddwy sesiwn a neilltuwyd yn benodol i archwilio i'r modd yr ymdriniodd Gweinidogion â chlwy'r traed a'r genau ymysg yr enghreifftiau mwyaf arwyddocaol o archwilio gan unrhyw un o Bwyllgorau'r Cynulliad.

***Adolygu Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.7 (iii))***
4.9 Er nad yw'r Pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw gyrff cyhoeddus mawr, rydym yn cadw llygad ar weithgareddau'r Awdurdod Datblygu, y Bwrdd Croeso, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Parciau Cenedlaethol gan fod gan bob un ohonynt rôl bwysig yng Nghymru wledig. Cyfrannodd pob un at ein hadolygiadau polisi ac mae eu cyfraniad yn allweddol o ran gwireddu ein hamcanion.

***Deddfwriaeth (Rheol Sefydlog 9.8 (i))***
4.10 Ym mis Rhagfyr 2000 cyfeiriwyd y Mesur Hela at y Pwyllgor er mwyn ystyried ei effaith ar Gymru. Er na chafodd y mesur ei gymeradwyo cyn yr Etholiad Cyffredinol, yr oedd y Pwyllgor wedi gofyn am sylwadau ar y cynnig eisoes. Erbyn hyn, mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno mesur

newydd, felly bydd y Pwyllgor yn defnyddio'r 900 a rhagor o ymatebion a dderbyniwyd yn sail i adroddiad byr a fydd yn bwydo i mewn i waith Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r broses seneddol.

4.11 Cyflwynodd y Pwyllgor adroddiadau i'r Cyfarfod Llawn ar chwech o reoliadau drafft a gyfeiriwyd atom dan Reol Sefydlog 22.5 (4). Yn ogystal â hyn, derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau ar ddeddfwriaeth arfaethedig yn ymwneud ag amaethyddiaeth a datblygu gwledig ar ddechrau pob tymor.

***Y Gyllideb (Rheol Sefydlog 9.8 (ii))***

4.12 Nodwyd ein blaenoriaethau o ran y gyllideb yn ystod tymor yr haf, a chyflwynwyd sylwadau ar y gyllideb ddrafft yn ystod tymor yr hydref.

***Cwynion (Rheol Sefydlog 9.8(iii))***

4.13 Ni chyfeiriwyd unrhyw gwynion atom yn ystod y cyfnod dan sylw.

***Penodiadau Cyhoeddus (Rheol Sefydlog 9.8 (iv))***

4.14 Ymgynghorwyd ag aelodau'r Pwyllgor a enwebwyd i ystyried penodiadau cyhoeddus (5) ar nifer o benodiadau i gyrff cyhoeddus yn ystod y cyfnod dan sylw (6)

## 5 Blaenraglen

5.1 Mae ein blaenraglen waith strategol ar gyfer 2002-03 ar gael yn Atodiad 1.

**Y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Mis Mai 2002**

(1) Gweler www.cymru.gov.uk - tudalennau'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar gael yn cyfeieiad isod: http://www.wales.gov.uk/keypubassemcomagriandrural/index.htm
(2) Ymunodd Ron Davies a'r Pwyllgor ar 27 Tachwedd 2001 yn lle Huw Lewis. Cymerodd Rhodri Glyn Thomas a Cynog Dafis leoedd Elin Jones a Janet Ryder ar 21 Mawrth 2002.
(3) Er enghraifft y Salmon and Freshwater Fisheries Review, cloriannu Tir Gofal a chynorthwyo newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant ffermio.
(4) Rheoliadau Hadu Grawfwydydd (Diwygio) (Cymru) 2001; Rheoliadau Hadau Betys (Diwygio) (Cymru) 2001; Rheoliadau Hadau Planhigion Porthiant (Diwygio) (Cymru) 2001; Rheoliadau Hadau Planhigion Olew a Ffibr (Diwygio) (Cymru) 2001; Rheoliadau Hadau Llysiau (Diwygio) (Cymru); Rheoliadau Tatws Hadyd (Diwygio) (Cymru) 2001
(5) Glyn Davies a Delyth Evans yw'r Aelodau enwebedig ar hyn o bryd
(6) Y Panel Apel ar gyfer Ffermwyr (Aelodau), Bwyd o Brydain (Aelod), Awdurdod y Diwydiant Pysgod Mor (Aelodau) a'r Pwyllgorau Pysgod Mor

**ATODIAD 1**

## Y PWYLLGOR AMAETHYDDIAETH A DATBLYGU GWLEDIG

## BLAEN RAGLEN WAITH STRATEGOL MAI 2002 – MAI 2003

### Cyflwyniad

1. Un o saith pwyllgor pwnc y Cynulliad yw'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. Amlinellir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn y Rheolau Sefydlog a geir yn **Atodiad A.**

2. Mae Rheol Sefydlog 9.9 yn ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgorau pwnc gynnal rhaglen waith dreigl i gwmpasu cyfnod o 12 mis fan leiaf. Cytunodd Panel y Cadeiryddion y dylai rhaglenni gwaith y pwyllgorau fod yn strategol a chwmpasu cyfnod o 18 – 24 misw, wedi'u hategu gan raglenni gwaith mwy manwl i gwmpasu cyfnod o dri mis. Mae'r rhaglen waith hon yn amlinellu blaenoriethau strategol y Pwyllgor rhwng Mai 2002 ac etholiadau nesaf y Cynulliad a gynhelir ym Mai 2003. Ceir rhaglen waith fwy manwl ar gyfer y cyfnod rhwng Mai a Gorffennaf 2002 yn **Atodiad B.**

### Cylch gwaith

3. Mae cylch gwaith y Pwyllgor wedi'i seilio ar bortffolio Carwyn Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, sy'n ymwneud â phob agwedd ar amaethyddiaeth a physgodfeydd, datblygu a hyrwyddo cynhyrchu bwyd, coedwigaeth a datblygu'r economi wledig.

### Nodau

4. Nod y Pwyllgor yw hybu economi wledig gryfach a mwy amrywiol a chymunedau gwledig cynaliadwy yng Nghymru.

### Blaenoriaethau

5. Mae blaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn i ddod fel a ganlyn:

- *Datblygu polisïau* (Rheol Sefydlog 9.7(i)) – bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar y meysydd hynny sy'n ymwneud â datblygu polisïau y gall effeithio fwyaf arnynt, a bydd yn ceisio ategu'r polisïau y mae'r Gweinidog wrthi'n eu datblygu yn hytrach na'u dyblygu. Yn ystod y flwyddyn i ddod, mae'r Pwyllgor yn bwriadu adolygu'r meysydd polisi canlynol:

- *y sector organig*
- *adroddiad archwilio/cynnydd ar y gwaith o gyflwyno rhaglenni strwythurol Ewropeaidd mewn ardaloedd gwledig*
- *Tir Gofal*

Bydd y Pwyllgor yn rhoi ei farn i'r Gweinidog ar yr adolygiad o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a gynhelir hanner ffordd drwy'r tymor pan gyhoeddir cynigion y Comisiwn Ewropeaidd yn ddiweddarach yn 2002.

- *Craffu ar y Gweinidog* (Rheol Sefydlog 9.7(ii)) – bydd y Pwyllgor yn craffu ar y Gweinidog dros Faterion Gwledig drwy ganolbwyntio ar yr adroddiad y bydd yn ei gyflwyno i aelodau'r Pwyllgor yn y cyfarfodydd a gynhelir bob pythefnos.  Os caiff y Gweinidog ddigon o rybudd, bydd yn ymdrin â materion a godwyd gan yr Aelodau yn yr adroddiad hwn. Efallai y bydd y Pwyllgor hefyd yn craffu ar berfformiad y Gweinidog a'i gymharu â thargedau ac yn cynnal sesiynau craffu thematig o bryd i'w gilydd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn bwriadu craffu ar y modd y cyflwynir yr argymhellion yn ei adroddiad *Arallgyfeirio'r Economi Wledig.*

- *Craffu ar gyrff a noddir* (Rheol Sefydlog 9.7(iii)) – Er nad oes unrhyw un o'r prif Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ar hyn o bryd yn adrodd yn uniongyrchol i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig, bydd y Pwyllgor yn craffu ar berfformiad cyrff cyhoeddus wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau mewn ardaloedd gwledig.  Bydd y Pwyllgor hefyd yn craffu ar y modd y cyflwynir yr argymhellion gan Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn ei adroddiad *Arallgyfeirio'r Economi Wledig.*  Bydd y pwyllgor yn parhau i fonitro gwaith y bartneriaeth amaeth-fwyd yn rheolaidd.

- *Eitemau eraill (*Rheol Sefydlog 9.8) – bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried yr eitemau canlynol wrth iddynt godi:

- *deddfwriaeth arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru* (Rheol Sefydlog 9.8(i) a 22) – bob tymor bydd y Gweinidog yn amlinellu'r is-ddeddfwriaeth arfaethedig er mwyn i'r Pwyllgor allu nodi'r meysydd yr hoffai ddarparu cyngor arnynt.  Ar ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried araith y Frenhines, bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol ddrafft a gyfeiriwyd ato yn y Cyfarfod Llawn.  Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried is-ddeddfwriaeth ddrafft a gyfeiriwyd ato gan y Pwyllgor Busnes [er y byddai'n gofyn i bobl beidio ag ymgynghori ag ef ynghylch y meysydd hynny nad oedd wedi mynegi diddordeb ynddynt]:

- *cynigion ar gyfer dyrannu cyllideb y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.8 (ii))* – Bydd y Pwyllgor yn nodi ei flaenoriaethau o ran dyrannu'r gyllideb yn ystod tymor yr haf a bydd yn gwneud sylwadau ar y gyllideb ddrafft yn ystod tymor yr hydref;

- *cwynion* (Rheol Sefydlog 9.8(iii) a 21*)* - bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw gwynion a gyfeiriwyd ato;

- *penodiadau cyhoeddus* (Rheol Sefydlog 9.8(iv) ac 20) – bydd dau a enwebwyd gan y Pwyllgor yn cymryd rhan yn y broses o benodi pobl i swyddi gyda chyrff cyhoeddus pan ddaw'r swyddi'n wag;

- *unrhyw faterion eraill a gyfeiriwyd ato gan y Cynulliad* (Rheol Sefydlog 9.8 (v)) – bydd y Pwyllgor yn ystyried materion eraill a gyfeiriwyd ato gan y

Cynulliad Cenedlaethol ond byddai’n gofyn i Aelodau ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor cyn cyflwyno cynigon sy’n gwahodd y cyfarfod llawn i gyfeirio gwaith at y Pwyllgor.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor** **Chwefror 2002**

**ATODIAD A**

**CYFRIFOLDEBAU'R PWYLLGORAU PWNC**

1. Mae rheolau sefydlog 9.7 a 9.8 yn amlinellu cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc.

"9.7 Bydd pob pwyllgor pwnc yn

- (i) cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol yn atebol i'r Cynulliad drostynt;
- (ii) adolygu'r gwariant a'r gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r broses o'u rhoi ar waith; ac
- (iii) adolygu'r modd y cyflawnir swyddogaethau cyhoeddus gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat yn y meysydd hynny.

"9.8 O fewn eu meysydd perthnasol, bydd pob pwyllgor pwnc hefyd yn

- (i) cynghori ar ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru, gan gynnwys cyflawni ei swyddogaethau o dan reol sefydlog 22;
- (ii) darparu cyngor i Gabinet y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â dyrannu cyllideb y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 19;
- (iii) cyflawni ei swyddogaeth o dan Reol Sefydlog 21 (cwynion);
- (iv) cyflawni unrhyw swyddogaethau a bennwyd ar ei gyfer o dan God Ymarfer y Drefn Penodiadau Cyhoeddus a wnaed gan y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 20; ac
- (v) ystyried materion a gyfeiriwyd ato gan y Cynulliad o fewn ei feysydd".

**ATODIAD B**

**PWYLLGOR AMAETHYDDIAETH A DATBLYGU GWLEDIG**
**Blaen Raglen Waith; haf 2002**

| | |
|---|---|
| 17 Ebrill | **Adroddiad y Gweinidog**<br>**Cynllun Genoteipio Mamogiaid Cymru**<br>**Cyswllt Ffermio –** adroddiad cynnydd<br>**Ffermio at y Dyfodol –** adroddiad cynnydd<br>**Adolygiad polisi'r Pwyllgor** |
| 1 Mai | **Adroddiad y Gweinidog**<br>**Ymateb i *Arallgyfeirio'r economi wledig***<br>**Ymgynghori ymlaen llaw ynghylch rhoi amlen genedlaethol y system cig dafad ar waith**<br>**Adolygiad polisi'r Pwyllgor** |
| 15 Mai | **Adroddiad y Gweinidog**<br>**Yr Is-adran Polisi Gwledig – cyflwyniad a blaenoriaethau**<br>**Adroddiad ar gynnydd y drefn apeliadau annibynnol**<br>**Adolygiad polisi'r Pwyllgor** |
| 29 Mai | **Adroddiad y Gweinidog**<br>**Sectorau eraill – drafft terfynol y cynlluniau gweithredu**<br>**Adolygiad polisi'r Pwyllgor** |
| 19 Mehefin | **Adroddiad y Gweinidog**<br>**Y Cynllun Datblygu Gwledig –** y diweddaraf am ei hynt cyn y ddadl yn y cyfarfod llawn ym mis Gorffennaf<br>**Adolygiad polisi'r Pwyllgor** |
| 3 Gorffennaf | **Adroddiad y Gweinidog**<br>**Ystyried adroddiad Canolfan Gydweithredol Cymru ar fanwerthu yng nghefn gwlad**<br>**Adolygiad polisi'r Pwyllgor** |
| 17 Gorffennaf | **Adroddiad y Gweinidog**<br>**Strategaeth bysgodfeydd**<br>**Adroddiad ar hynt JIGSAW**<br>**Ffermio i'r Dyfodol –** adroddiad ar ei hynt<br>**Adolygiad polisi'r Pwyllgor** |